# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 10 Mai 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, C.Clement-Williams, C.Galsworthy, J.Henton, J.Jones, R.G.Jones, C.Phillips, R.Phillips, S.Pursey, S.H.Reynolds, A.J.Richards a/ac M.Spooner |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, C.John a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, N.Jenkins, S.Jones, S.A.Knoyle, D.M.Peters a/ac J.Hale |
| **Eurus Consulting** | David Gwynne |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni chafwyd unrhyw fuddiannau.

3. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

   Cafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad Cystadleuaeth Porthladdoedd Rhydd Cymru a gyhoeddwyd gan lywodraethau Cymru a'r DU a'r cais i fwrw ymlaen â'r gwaith sy'n gysylltiedig â chyflwyno Achos Busnes Amlinellol, sef cam nesaf y broses polisi Porthladd Rhydd, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Dywedodd y swyddogion wrth y pwyllgor fod camgymeriad yn argymhelliad (e) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.Nodwyd bod argymhelliad (e) yn darllen:

- ‘Cymeradwyo’r ymrwymiad o £250,000 o refeniw i baratoi’r Achos Busnes Amlinellol a’r Achos Busnes Ariannol ac yn nodi y bydd unrhyw geisiadau am ymrwymiad ariannol ychwanegol yn cael eu dwyn yn ôl i’r Cabinet i’w cymeradwyo ymhellach;’ – 200,000 ac nid 250,000.

Nodwyd y dylai £250,000 ddarllen fel £200,000 ac nid £250,000 fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Roedd David Gwynne o Eurus Consulting yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad.

Holodd yr Aelodau ynghylch y manylion ariannol a nodwyd yn yr adroddiad.Nodwyd bod risg ariannol o £150,000 i £250,000.Roedd yr aelodau'n bryderus a fyddai hyn yn cael effaith ar y cronfeydd wrth gefn y gyllideb sydd i ddod pe na bai'r arian yn cael ei adennill o fewn y flwyddyn ariannol hon.Rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r aelodau y byddai'r cronfeydd wrth gefn yn ddigon cyfforddus i ymdrin â'r risg hon.

Rhannodd yr aelodau bryderon mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu gyda'r paneli ychwanegol.Sicrhaodd y Prif Weithredwr yr aelodau y byddent yn cael cyfle i graffu a gwahodd cynrychiolwyr o’r Panel Buddsoddi yn ogystal ag ystyried eu Cylch Gorchwyl.

Holodd yr aelodau ynghylch ym mha portffolio y bydd y Porthladdoedd Rhydd yn berthyn iddo yn y dyfodol at ddibenion llywodraethu.Dywedodd swyddogion y byddai Porthladdoedd Rhydd yn cael eu cynnwys ym mhortffolio Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun ar gyfer craffu yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaethau ynghylch ardrethi busnes ac archwilio cynllun budd cymunedol yn y dyfodol.Nodwyd nad oedd swyddogion wedi derbyn arweiniad eto ynglŷn â’r disgwyliadau ar yr hyn sydd ei angen o ran yr achos busnes, ond nodwyd bod trafodaethau wedi cychwyn ar sefydlu’r achos busnes i sicrhau buddion economaidd ehangach.Byddai hyn yn arwain at y budd mwyaf o ran swyddi ac felly'r angen am dai ychwanegol.

Holodd yr Aelodau o ran addysg mewn colegau i sicrhau bod y sgiliau priodol ar gael i'r rheini yng nghymuned Castell-nedd Port Talbot i gael y swyddi posib hyn.Sicrhaodd swyddogion fod sgyrsiau'n cael eu cynnal â'r swyddogion perthnasol a phartïon allanol a byddai diweddariadau ar uwchsgilio o fewn colegau yn cael eu darparu i aelodau maes o law.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhellion (gan gynnwys diwygiad technegol swyddogion i Argymhelliad (e)) i'w cyflwyno i'r Cabinet.

4. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**